

## **IESU, "MYFI YW DRWS Y DEFAID".**

**Emyn:** 400 'lesu yw'r lôr!'

**Darlleniad:** Ioan 10:1-10.

**Neges:** '*Felly dywedodd lesu eto, "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych, myfi yw drws y defaid."*' "Truly, truly, I say to you, I am the door of the sheep," 7. Yn yr adnodau agoriadol gwnaethom ddysgu bod lesu yn arwain pobl allan o bethau gwag y byd ac i mewn i'w eglwys ef. Dyma ddarlun o'r gorlan a welir mewn trefi gyda cheidwad yn gwarchod y drws. Yn ein hadnodau heddiw rydym yn edrych ar gorlan y wlad, sef cylch o gerrig heb ddrws gyda bugail yn cysgu o flaen yr agoriad (fel drws) i warchod y defaid. **Beth a olygai lesu pan wnaeth lefaru, "Myfi yw drws y defaid"?**

**i) Un Drws:** Gyda chorlan ond un agoriad 'drws' oedd. Y wers, **lesu yw'r unig ffordd / drws at y Tad.** Dyna pam wnaeth lesu lefaru, "*Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi,*" Ioan 14:6. Gwnawn gyrraedd at Dduw a'r nefoedd nid trwy ymdrechion dynol, megis gweithredoedd da, addysg neu statws cymdeithasol, ond trwy lesu. a) Pechod – mae'n ein cadw ar wahân o Dduw glân a sanctaidd. **Beth mae**

**lesu wedi gwneud drosom?** b) Daeth lesu i'r byd a marw ar y groes, gan gymryd y gosb am ein pechodau, er mwyn adfer y berthynas gyda Duw. Ond lesu allai gwneud hyn! c) lesu felly yw'r ffordd/drws at y Tad.

**ii) Drws i Rywun:** "*Myfi yw'r drws; os daw rhywun i mewn trwof fi, caiff ei gadw'n ddiogel,*" 9. a) Nid yw hyn yn golygu bod pawb yn mynd i'r nefoedd. b) Duw sy'n galw pobl ato'i hun; Ef sy'n eu rhoi yn rhodd i'w Fab lesu, ad.29. Ond nid yw'r alwad yn un cyfyngedig (limited) yn ddibynnol ar weithredoedd da pobl, eu cefndir neu addysg. c) Mae'n alwad i unrhyw un sydd yn barod i wrando ar lais y Bugail lesu a'i ddilyn ef.

**iii) Mynediad trwy lesu:** Beth wnaeth lesu olygu gyda'r geiriau, "*os daw rhywun i mewn trwof fi,*"? **Sut mae deall "trwof fi"?** Mae angen credu yn lesu fel Arglwydd a Gwareddwr. Mae angen ei ddilyn Ef yn ffyddlon.

### **Pam credu a dilyn lesu?**

**a) Cadw:** "*Caiff ei gadw'n ddiogel,*" 9. **Cadw rhag beth?** 1) Pechod a'i ganlyniadau a'r Un drwg a'i gynlluniau. 2. Eu cadw ar gyfer y nef a bywyd yn ei holl gyflawnder.

**b) Diogelwch:** "*Caiff fynd i mewn ac allan,*" 9. Nid yw hyn yn golygu 'mynd i mewn ac allan' o Gristnogaeth. Mae'n

golygu diogelwch! Pan mae person yn rhydd ‘i fynd i mewn ac allan’ trwy’r wlad mae’n arwydd o heddwch o fewn y tir. Ond pan mae gwlod dan fygythiad mae pobl yn gorfod cuddio ac ynysu eu hunain (corona feirws!).

c) Cynhaliaeth: ‘Caiff “*dod o hyd i borfa*,” 9. **Pam mae bugail yn arwain ei ddefaid allan o’r gorlan?** Er mwyn iddynt gael bwyd, porfa i fwyta. **Beth yw bwyd y credadun?** Gair Duw, y Beibl. **Beth sydd yn ei adfywio?** Yr Ysbryd Glân. Dyma sydd yn rhoi cynhaliaeth ysbrydol i berson a bywyd yn ei holl gyflawnder (10). Dyma mae lesu yn dyheu amdano i bob yr un ohonom.

**1. A ydym wedi clywed ac yn adnabod llais y Bugail lesu ac yn Ei ddilyn yn ffyddlon?**

**2. A wnawn Ei gydnabod fel yr unig ffordd at Dduw’r Tad ac i fywyd cyflawn yn y nef rhyw ddydd?**

**Gweddi:**

O Dduw Dad, mae'r wythnosau yn mynd heibio ac nid oes diwedd i'r feirws ofnadwy yma. Cofiw am weithwyr sydd wedi bod ar flaen y frwydr gan ofyn i Ti eu cynnal a'u nerthu. Cofiw am y plant a'r athrawon sydd wedi dychwelyd i'r ysgolion – cadw hwynt oll yn ddiogel yw ein gweddi.

Er yr holl ansicrwydd o'n cwmpas, diolch dy fod yn parhau i fod y Duw Hollalluog. Rwyt yn deall ein gofidiau ac yn deall ein hofnau oherwydd nid Duw pell ydwyt ond Duw sydd wedi agosáu atom, trwy dy Fab Iesu Grist.

Diolch bod Iesu wedi troedio ein daear ac wedi ei fagu mewn teulu cyffredin ac felly yn gwybod beth yw poen a galar, dioddefiadau a chaledi. Diolch mae Iesu yw ‘drws y defaid’, y ffordd atat Ti ein Tad nefol, ac at fywyd gwell yn y nefoedd. Fe ddaeth Iesu i roi i ni obaith, gobaith am fywyd yn ei holl gyflawnder yn ei gwmni rhyw ddydd. Cynnal ni yn y dyddiau dryslyd yma gyda'r gobaith yma, yn Ei Enw Ef, Amen.

## JESUS, THE DOOR OF THE SHEEP.

**Hymn:** 888 'Jesus is Lord!'

**Reading:** John 10:1-10.

**Message:** '*So Jesus again said to them, "Truly, truly, I say to you, I am the door of the sheep,"*' 7. In the opening verses we learnt that Jesus leads people out of the 'empty things of life' and into his church. This is represented by the town sheepfold which is guarded by a gatekeeper. In our verses today we look at the rural sheepfold, a circle of stones in an open field, with no door or gate. The shepherd lies or sleeps across the entrance (like a door) to guard the sheep. What did Jesus mean when he said, "*I am the door of the sheep?*"

**i) One Door:** With a sheepfold there was but one 'door' opening. The lesson presented is, **Jesus is the only way / door to the Father.** That is why Jesus said, "*I am the way and the truth and the life. No one comes to the Father except through me,*" John 14:6. We reach God and heaven, not by human effort such as good works, our social standing, wealth or education, but through Jesus! a) Sin – it keeps us apart from a perfect God. **What has Jesus done for us?** b) Jesus came to the earth to die on a

cross, taking the punishment for our sins, so that our relationship with God could be restored / reconciled. Only Jesus could do this! c) Jesus therefore is the way, the door to the Father.

**ii) A Door for Anyone:** "*I am the door. If anyone enters by me, he will be saved,*" 9. a) This does not teach that everybody is going to heaven. b). God calls people to himself, vs. 29. This is not a limited call dependent on the goods works of an individual, a person's background or education. C) It is a call to anyone who is ready to listen to Jesus' voice and follow him.

**iii) Entry through Jesus:** What does Jesus mean by the words, "if anyone enters by me?" How do we understand 'enters by me'? It is a call to truly believe in Jesus as Lord and Saviour. A call to follow Him faithfully.

### Why believe and follow Jesus?

**a) Salvation:** "*If anyone enters by me, he will be saved,*" 9. **Saved from what?** 1. Sin and its consequences and the Evil one. 2. Also, a person is saved and kept for heaven and life in all its abundance.

**b) Security:** "*He will go in and out,*" 9. This does not mean to 'go in and out' of Christianity or the church. Here it

means ‘security’. When a person is free to ‘go in and out’ within his land it is a sign of peace, a freedom to move about freely. When a land is under attack the people have to hide or isolate themselves from the danger, (corona virus!).

c) **Sustainment:** ‘*He will ... find pasture,*” 9. Why does a shepherd lead his flock out of the sheepfold? So that the sheep may have food, pasture. **What is food to the believer?** The food is God’s Word, the Bible. **What refreshes the believer?** The Holy Spirit. This is what sustains a person spiritually and life abundant, 10. This is what Jesus desires for each and every one of us.

**1. Have we heard the voice of Jesus and are we following Him faithfully?**

**2. Are we prepared to acknowledge Him as the only way to the Father and life in all its abundance?**

**Prayer:**

Heavenly Father, the days go by and still there is no end to this terrible pandemic. We pray for continued strength for all workers who are trying to get the nation back to some sort of normality. We remember, especially this

week the children and the teachers who have returned to school – please keep them safe during these trying days.

Yet, despite all the uncertainty at present, we give thanks that you are still God Almighty. You know all things, you know our present worries and fears. You are not a distant God, but a God who has come near to us in your Son Jesus Christ.

We give thanks that Jesus came to this earth, that he was raised within a common family and so knows the pains and sufferings, the tears and hardships of life upon earth. Thank you that Jesus is the ‘door of the sheep’, the way to you, our heavenly Father, and the way to life in all its fullness. In trying days such as these, Jesus offers us hope. The hope of life in heaven one day where we can be free from pain and suffering and enjoy your presence continually. Please continue to sustain us in these difficult days. We ask all of this in Jesus’ name. Amen.

